Cwestiynau cyffredin

Gobeithio bydd y dudalen hon yn ateb eich cwestiynau am y digwyddiad Gŵyl y Caws Bach yng Nghaerffili.

Cofiwch fod rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefannau ni a'n tudalennau ni ar y cyfryngau cymdeithasol – **www.bigcheesecaerphilly.co.uk/cy** / **www.visitcaerphilly.com** / **@VisitCaerphilly**

Os na allwch chi ddod o hyd i ateb i'ch cwestiwn ar y wefan, cysylltwch â **digwyddiadau@caerffili.gov.uk** neu 029 2088 0011.

1. Beth yw oriau agor y digwyddiad?

Dydd Sadwrn 2 Medi, 9am–8pm
Dydd Sul 3 Medi, 9am–5pm

2. Oes tâl yn cael ei godi am fynd i mewn i'r digwyddiad?

Nac oes, mae mynediad **AM DDIM** i'r digwyddiad hwn.

3. Ydy cŵn yn cael eu caniatáu?

Ydyn, mae cŵn yn cael eu caniatáu yn y digwyddiad, ac eithrio ardal y ffair hwyl. Mae cŵn tywys yn cael eu caniatáu ym mhob man.

4. Oes cyfleuster parcio a theithio?

Does dim cyfleuster parcio a theithio ar gyfer y digwyddiad, ond mae cyfleusterau parcio a cherdded **AM DDIM** yn y lleoliadau canlynol:

- Ysgol Gyfun Cwm Rhymni – Y Gwyndy, Heol Pontygwindy CF83 3HG
- Ysgol Martin Sant, Hillside CF83 1UW

5. Pa drefniadau parcio sydd ar gael yn y digwyddiad?

Yn ogystal â'r cyfleusterau parcio a cherdded am ddim uchod, mae meysydd parcio cyhoeddus ar gael yn y lleoliadau canlynol:

- Maes parcio Station Terrace (talu ac arddangos)

- Cyfleuster Parcio a Theithio Caerffili (am ddim)
- Maes parcio Crescent Road (talu ac arddangos)
- Morrisons/Canolfan Siopa Cwrt y Castell (am ddim, hyd at 3 awr)

Gweler hefyd y map parcio ar **wefan Gŵyl y Caws Bach** a **thudalen Gŵyl y Caws Bach ar Facebook**, yn ogystal â **gwefan Croeso Caerffili** a'r tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n cynnwys lleoliadau mannau parcio i bobl anabl a lleoliadau rheseli beiciau.

6. Oes tâl yn cael ei godi am fynd i mewn i Gastell Caerffili?

Oes, mae tâl yn cael ei godi am ymweld â'r Castell yn ystod y digwyddiad. Am brisiau tocynnau, **cliciwch yma**.

7. Oes sioe tân gwyllt?

DOES DIM sioe tân gwyllt yn y digwyddiad hwn.
Bydd y sioe tân gwyllt nesaf yn cael ei chynnal ar ôl **Gorymdaith Lusernau Afon y Goleuni, ddydd Sadwrn 2 Rhagfyr 2023.**

8. Pryd mae Ras y Caws Bach?

Mae Ras y Caws Bach yn cael ei chynnal **fore Sadwrn 2 Medi** am **10am**.
Mae man cychwyn y ras yn Crescent Road.

I gymryd rhan, anfonwch e-bost i **meredro@caerffili.gov.uk** neu ffonio **Chwaraeon Caerffili** ar **07919 627462**.

9. Pryd mae'r ffair hwyl ar agor?

Dydd Sadwrn 2 Medi, 9am–8pm
Dydd Sul 3 Medi, 9am–8pm

10. Oes modd i mi gael stondin yn y digwyddiad?

I holi am faterion masnachu, anfonwch e-bost i **digwyddiadau@caerffili.gov.uk**

11. Pryd a ble mae'r adloniant?

Bydd cerddoriaeth fyw ac adloniant ledled canol y dref ac arena adloniant y tu ôl i Gastell Caerffili. Mae'r holl raglenni adloniant ar gael ar wefan Gŵyl y Caws Bach a gwefan Croeso Caerffili, a bydd gwybodaeth yn cael ei phostio ar dudalennau Gŵyl y Caws Bach a Croeso Caerffili ar y cyfryngau cymdeithasol.

12. Ydy alcohol yn cael ei ganiatáu?

Does neb yn cael dod ag alcohol i'r digwyddiad Gŵyl y Caws Bach. Bydd staff diogelwch yn monitro pob mynedfa ac yn sicrhau bod alcohol yn cael ei

gymryd oddi ar unrhyw ymwelwyr sy'n ceisio dod ag alcohol i'r safle. Bydd modd prynu alcohol i'w yfed ar y safle yn y bariau ym maes parcio'r Twyn. Bydd mannau yfed dynodedig eraill yn y dref lle gallwch chi hefyd fwynhau cerddoriaeth fyw.

13. Oes toiledau ar gael?

Mae toiledau ar gael ledled safle'r digwyddiad, gan gynnwys toiledau hygyrch.

14. Oes peiriant codi arian parod?

Mae peiriannau codi arian parod ar gael ar hyd Cardiff Road.

15. Pam does dim digwyddiad Gŵyl y Caws Mawr eleni?

Does dim modd cynnal y digwyddiad Gŵyl y Caws Mawr yn ei fformat arferol oherwydd dydy Castell Caerffili ddim ar gael i fod yn rhan o safle'r digwyddiad oherwydd gwaith datblygu sy'n cael ei wneud yno.

Fodd bynnag, rydyn ni wedi gwrando ar adborth gan ein trigolion ac wedi ehangu safle Gŵyl y Caws Bach i'r tir y tu ôl i'r castell er mwyn cynnwys ffair hwyl ac arena adloniant fawr, ynghyd â nifer o weithgareddau eraill, gan gynnwys Ras y Caws Bach eto!

Bydd y ffair hwyl ar dir Cadw y tu ôl i'r castell, yn agos i Crescent Road, ond nid Caeau Owain Glyndŵr. Bydd ffyrdd canol y dref ar gau, felly bydd angen i Crescent Road fod ar agor er mwyn hwyluso llif y traffig a mynediad i faes parcio Crescent Road. Bydd Crescent Road ar agor yn ystod y digwyddiad, felly, er budd diogelwch cerddwyr, mae angen cadw'r holl adloniant ar un ochr i'r ffordd.

Hefyd, un o'n prif amcanion ni yw helpu adfer busnesau ar ôl COVID-19 a chynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol ein trefi. Fydd dim consesiynau bwyd poeth ar dir glaswelltog Cadw, er mwyn annog ymwelwyr i wario arian yn y dref.

16. Mae gen i gwestiwn sydd heb gael ei ateb yn y ddogfen hon.

I holi am y digwyddiad yn gyffredinol, anfonwch e-bost i **digwyddiadau@caerffili.gov.uk**